ASTUDIAETH ACHOS

Pentre Comrades Club in Pentre, Rhondda

Hwb Cymunedol: Tafarn yn y Rhondda yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd gyda siop bentref a chaffi newydd er budd y gymuned.

Mae Clwb Cymrodyr Pentre ym Mhentre, y Rhondda yn gweithio er budd trigolion y gymuned drwy agor siop bentref cynaliadwy a chaffi cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau lleol hollbwysig.

Mae nifer o gyfleusterau yn yr hen bentref glofaol wedi cau eu drysau yn yr 20 mlynedd diwethaf gan gynnwys ysgolion, siopau, canolfannau dydd a llyfrgelloedd.

Bu'r tafarnwyr Denise Roberts a Helen Roderick yn cynnal Clwb Cymrodyr Pentre am 30 mlynedd bellach. Maen nhw'n derbyn tâl am gynnal y clwb ar benwythnosau, ond yn ystod yr wythnos pan maen nhw'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, maen nhw'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim fel gwirfoddolwyr.

Yn ystod cyfnodau clo Covid-19 cafodd y Clwb Lleng Brydeinig gynt ei ailwampio'n helaeth, gyda chymorth 12 o wirfoddolwyr a chyllid yn sgil amryw grantiau ac ymgyrchoedd codi arian.

Mae'r ganolfan wedi esblygu o'i gwreiddiau fel clwb. Bellach mae ganddi drwydded tafarn llawn ac mae ar agor i'r cyhoedd. At hyn, mae wedi'i datblygu i greu gofod cymunedol caiff ei ddefnyddio ar gyfer llawer mwy nag yfed cymdeithasol yn unig.

pub is the hub

Cyfleoedd gwirfoddoli

Mae cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer trigolion lleol, gan gynnwys chwe gwirfoddolwr rhwng 10 a 15 oed, sy'n cynnig help llaw yn ystod gwyliau'r ysgol yn enwedig gyda'i gweithgareddau canolfan clyd a gwersi crefftau.

Mae Clwb Cymrodyr Pentre, sydd yn ganolfan canolog y gymuned wledig anghysbell hon erbyn hyn, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau lleol gan geisio meithrin y cysylltiadau cymunedol hynny unwaith eto.

Darparwyd cymorth arbenigol a dwy grant Cronfa Gwasanaethau Cymunedol gan Tafarn yw'r Galon i helpu gydag agor siop gymunedol a chaffi.

Mae'r siop gymunedol yn gwerthu hanfodion lleol am bris rhesymol, sy'n fodd i bobl wneud y gorau o'u harian a mynd i'r afael â thlodi bwyd gyda'r argyfwng costau byw parhaus.

Cynaladwyedd

Mae cynaladwyedd yn brif ethos busnes y siop bentref gan gynnig cyfle i bobl ail-lenwi eu blychau cynhwysion drwy brynu cynnyrch yn ôl eu pwysau, lleihau'r defnydd o blastig a helpu'r amgylchedd. Mae'r siop hefyd yn gwerthu wyau gan ffermwr lleol ac mae cynlluniau ar waith i ymestyn ei chynnig cynnyrch sydd wedi'u caffael yn lleol ymhellach.

“Fe wyddom fod bobl yn awyddus i deimlo fel eu bod yn perthyn ac rydym yn gwybod bod ein cymuned yn dal yn un clos sy’n cyd-dynnu. O ganlyniad, fe hoffem gynnig adnodd iddyn nhw yn lle’r cyfleusterau coll hynny yn ein hardal a darparu lle i gydweithio gyda’r gymuned. Mae croeso cynnes i bawb yn y dafarn. Rydym wedi derbyn cymorth arbennig gan drigolion y gymuned a hoffem eu haddysgu am fuddion byw’n gynaliadwy ynghyd â chynnig lle iddyn nhw ddod ynghyd i gymdeithasu.”

Tafarnwraig ac ysgrifenyddes y clwb, Denise Roberts

“Mae Clwb Cymrodyr Pentre yn enghraifft o dafarnwyr gwych yn canolbwyntio ar fodloni anghenion eu cymuned cefn gwlad. Mae hi’n wir yn ganolfan canolog ar gyfer ei hardal.”

Cynghorwr rhanbarthol Tafarn yw’r Galon, Roger Belle

Amgylchedd Diogel

Penderfynwyd agor caffi yng Nghlwb Cymrodyr Pentre er mwyn cynnig amgylchedd diogel i gwsmeriaid ddod ynghyd, helpu trechu ynysigrwydd cymdeithasol ac ymwneud gydag ystod o wahanol bobl ledled y gymuned.

Fel rhan o’i strategaeth i ymwneud gyda phobl yn lleol, mae’r siop gymunedol a’r caffi hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i rymuso pobl a darparu’r sgiliau, y profiad a’r wybodaeth iddyn nhw er mwyn hybu eu hyder a’u gallu i ddod o hyd i waith ynghyd â gwella eu profiadau rhyngweithio cymdeithasol. At hyn bydd yn hybu eu lles ac yn meithrin eu hymdeimlad o berthyn yn eu cymuned.

Yn ddiweddar bu i Glwb Cymrodyr Pentre ail-agor eu cegin yn dilyn gwaith adfer ac mae bellach yn cynnig dosbarthiadau coginio cynaliadwy, megis sut i goginio prydau llysieuol, i bobl yn y gymuned.

Mae Clwb Cymrodyr Pentre yn gymdeithas buddiant cymunedol cofrestredig caiff ei chefnogi gan bwyllgor ond ei chynnal o ddydd i ddydd gan Helen a Denise. Mae’r clwb ar agor fel tafarn ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul ond mae ar agor saith diwrnod yr wythnos gan gynnig siop bentref, caffi a gofod cymunedol.